

**Arolygiad Urddas a Gofal
Hanfodol (Dirybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro –
Ysbyty Rookwood –
Niwroadsefydlu Ward 7 ac 8**

18 a 19 Mehefin 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Methodoleg.....	2
3. Cyd-destun	3
4. Crynodeb	4
5. Canfyddiadau	6
Ansawdd Profiad y Claf	6
Cyflenwad Hanfodion Gofal	7
Ansawdd Staffio Arweinyddiaeth a Rheolaeth	14
Cyflenwi Gwasanaeth Ddiogel ac Effeithiol	16
6. Camau Nesaf.....	19
Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd yn Ward 7 ac 8 (niwroadsefydlu), yn Ysbyty Rookwood, rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 18^{fed} a'r 19^{eg} o Fehefin 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cyflenwi Hanfodion Gofal
- Ansawdd Staffio Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Cyflenwi Gwasanaeth Effeithiol a Diogel

2. Methodoleg

Mae 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' AGIC yn arolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal yn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn arolygu dogfennaeth a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir hyd heddiw gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gofal ac urddas hanfodol.

3. Cyd-destun

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o'r sefydliadau GIG mwyaf yn y DU. Mae'n darparu gwasanaethau iechyd o ddydd i ddydd i tua 472,400 o'r bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd angen triniaeth ysbyty a gofal iechyd meddwl ar frys ac wedi'i drefnu ymlaen llaw. Mae hefyd yn cyflenwi gofal mewn cartrefi pobl a chlinigau cymunedol.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau gofal sylfaenol GIG yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr cymunedol, deintyddion ac optometryddion. Yn ogystal â hyn, mae'n gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled De a Chanolbarth Cymru ar gyfer gwasanaethau arbenigol megis gofal dwys pediatrig, gwasanaethau plant arbenigol, gwasanaethau arenol, gwasanaethau cardiaidd, niwroleg, trawsblannu mêr esgyrn a geneteg feddygol.

Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn cynnwys naw ysbyty ac un deg saith o ganolfannau iechyd gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru sy'n ysbyty sylweddol iawn a chanddo 1000 o welyau, wedi'i leoli yn ardal Y Mynydd Bychan, Caerdydd. Mae Ysbyty Athrofaol Cymru yn un o ysbytai addysgu Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd. Cafodd ei adeiladu rhwng 1963 ac 1971, gan gostio £22 miliwn, a hwn oedd ysbyty ac ysgol feddygol cwbl integredig cyntaf Ewrop. Agorwyd yr ysbyty yn swyddogol yn 1971 a dyma'r trydydd ysbyty fwyaf yn y DU, a'r ysbyty mwyaf yng Nghymru.

Mae ward 7 ac 8 adsefydlu niwrolegol yn cynnwys 22 o welyau gyda dwy adain yn cynnwys 11 gwely yr un. Mae pob adain yn cynnwys ward a chanddi 10 gwely; ac un ystafell sengl sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cleifion y mae angen cadw golwg agosach arnynt, neu i gleifion a chanddynt heintiau posibl. Mae'r ward yn arbenigo mewn niwroadsefydlu ac mae gan gyfran fawr o'r cleifion yno anaf i'r ymennydd.

4. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelwyd bod amgylchedd ward 7 ac 8 (niwroadsefydlu) yn heriol, ac roedd rhai rhannau yn is na'r safon ddisgwyliedig oherwydd oedran yr adeilad, cynllun y ward a'r gwaith adnewyddu sydd wedi'i gynllunio ond sydd eto heb ei gyflawni. Fodd bynnag, gwelwyd bod y staff yn cyflenwi gofal da er gwaetha'r amgylchedd a dywedodd cleifion wrthym fod yr amgylchedd yn gyfeillgar a bod staff yn caniatáu iddynt wneud yr ardal yn fwy cartrefol i raddau megis gosod ffotograffau o deuluoedd y cleifion, posteri a mygiau personol.

Mae'r gwasanaeth yn benodol ar gyfer cleifion sydd wedi cael niwed i'r ymennydd ac oherwydd natur eu salwch a'u hanghenion cymhleth roedd rhai cleifion wedi bod ar y ward ers amser hir er mwyn cael gofal ac adsefydlu, er enghraifft nifer o flynyddoedd.

Gwelsom dîm amlddisgyblaethol y staff yn darparu gofal arbenigol i fodloni anghenion cyfathrebu, corfforol ac emosiynol unigol y cleifion ac yn ateb dros symptomau anafiadau i'r ymennydd sydd weithiau'n heriol.

Gwelsom fod tîm amlddisgyblaethol y staff yn gweithio'n effeithiol i gynnwys teulu a gofalywyr y cleifion yn eu gofal parhaus a'u cynorthwyo gyda hyfforddiant i roi cefnogaeth ar gyfer gadael yr ysbyty i fynd adref, gan gynnwys helpu teuluoedd a'r gofalywyr i ddefnyddio'r offer, helpu gyda phatrwm dydd y cleifion, a dysgu sgiliau gofal i alluogi hyn i ddigwydd, felly gwelsom ymdrechion ymroddedig tuag at greu cynllun gadael yn seiliedig ar ofynion unigol y cleifion.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i warchod preifatrwydd ac urddas yr holl gleifion ac roedd mesurau ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd. Gwnaethom arsylwi ar nifer o ryngweithiadau cadarnhaol iawn rhwng aelodau o staff a chleifion yn ystod yr arolygiad.

Er bod safon uchel o breifatrwydd, urddas a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'w weld, daethom i'r casgliad nad oedd yr amgylchedd yr oedd y gofal hwn yn cael ei gyflenwi ynddo yn ddelfrydol ac y byddai cleifion a theuluoedd yn elwa o gyfleuster wedi'i dylunio'n fwy priodol gyda'r grŵp penodol hwn o gleifion mewn cof.

Roeddem yn teimlo bod ystaff nyrsio yn bodloni safonau gofynnol gofal nyrsio ac roeddem yn gwybod yn union sut i drosglwyddo problemau i lefel uwch pe baent yn codi. Roedd y broblem a nodwyd yn ymwneud â chyfnod o arweiniad cyfyngedig oherwydd y broses recriwtio i benodi prif nyrs ward newydd. Roeddem yn teimlo y gallai fod yn fuddiol i adolygu cydbwysedd lefelau staff amlddisgyblaethol a'u cyfuniad o sgiliau er mwyn darparu gwasanaeth adsefydlu a bodloni anghenion newidiol y grŵp cleifion.

Gwelsom fod mynediad cyfyngedig gan y cleifion ar y ward niwroadsefydlu at wasanaethau ffisiotherapi arbenigol a byddai cleifion yn elwa o gael mwy o ffisiotherapyddion ar y ward. Gwelsom heriau amgylcheddol y ward am ei fod y tu mewn i hen adeilad yr oedd angen ei adnewyddu. Nid oedd cysondeb rhwng

y dulliau i'r cleifion ddefnyddio larymau. Gwelsom anghysondebau wrth ufuddhau i Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan. Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod staff y ward yn cyflenwi gwasanaeth diogel i gleifion, o ystyried heriau amgylcheddol y ward.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Ar y cyfan, gwelsom fod y cleifion yn teimlo bod ansawdd eu profiad ar y ward hon yn uchel. Yn gyffredinol, roedd adborth ar agwedd staff a'r ffordd yr oeddent yn darparu gofal yn gadarnhaol ac roeddent yn teimlo bod eu hurddas a'u preifatrwydd yn cael eu parchu yn ystod eu harhosiad. Gwnaeth y cleifion nifer o argymhellion ynglŷn â sut y gellid gwella eu profiad ymhellach a dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y gallai'r rhain gael eu bodloni yn barhaus.

Yn ystod yr arolygiad cawsom sgwrs â nifer o gleifion a pherthnasau a rhoddwyd y cyfle i gleifion a pherthnasau gwblhau holiadur adborth.

Yn gyffredinol roedd y cleifion yn cytuno bod y ward yn lân. Roeddent yn teimlo bod y staff yn gwrtais ac yn gyfeillgar a bod safon y cyfathrebu yn dda.

Pan ofynnwyd am eu gofal, yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan gyda'r ffordd yr oedd gofal yn cael ei ddarparu ac roeddent yn teimlo bod llais ganddynt a'u bod yn rhan o'r penderfyniadau am eu gofal, gan gynnwys cynlluniau gadael, opsiynau gadael yn raddol, a thargedau i anelu atynt cyn gadael yn gyfan gwbl.

Roedd cleifion a oedd yn gallu defnyddio eu llechen yn falch eu bod yn gallu cysylltu â'r Wi-Fi. Gwelsom hefyd gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad ffisiotherapydd. Fodd bynnag, fel nodwyd yn yr adran am hyrwyddo annibyniaeth, dywedodd rhai cleifion wrthym y byddent yn hoffi mwy o weithgareddau a fyddai'n ysgogi'r ymennydd ar y ward a gwnaethant awgrymu 'bingo'.

Gwnaeth un neu ddau o'r ymatebwyr fynegi rhywfaint o anfodlonrwydd o ran nad yw'r staff bob tro yn gwrando ar eu barn ar yr hyn sy'n llwyddiannus i'w perthynas, fodd bynnag, gwnaethant sylwadau cadarnhaol am staff ar ward 8 yn fwy rhagweithiol wrth hybu annibyniaeth. Nodir casgliad o'r sylwadau a gafwyd isod:

"Mae ward 8 yn lle cyffrous iawn, gofynnwch am yr hyn sydd ei angen arnoch ac fe gewch chi'r holl help posibl"

"Maen nhw'n wych"

"Dylen nhw roi mwy o larymau ar y ward"

Cyflenwad Hanfodion Gofal

Roedd staff yn ymwybodol o'r angen i barchu preifatrwydd ac urddas yr holl gleifion, ac roedd ganddynt fesurau ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol rhwng staff, perthnasau a chleifion yn ystod yr arolygiad a gwelwyd perthynas dda rhwng y staff a'r holl gleifion.

Daeth hefyd i'r amlwg bod angen rhoi sylw i rai materion amgylcheddol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Nid oes cyfleusterau priodol ar gael i'r staff gynnal sgysiau sensitif a phreifat gyda chleifion a pherthnasau
- Roedd y ward yn annhaclus ac roedd cryn dipyn o offer ac annibendod wedi'i storio ar y ward.
- Roedd angen glanhau'r ardal tu allan/yr ardd i sicrhau nad oedd peryglon i gleifion.
- Nid oedd cynllun y ward yn addas i'r staff gadw llygad ar bob claf yn hawdd, yn enwedig y cleifion ym mhen pellaf y ward. Fodd bynnag, mae gan y staff system i sicrhau y gallant oruchwylio'r holl gleifion yn rheolaidd.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Mae'n rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a natur sy'n sensitif i'w hanghenion.

Yn gyffredinol, roedd cleifion a pherthnasau yn teimlo eu bod yn rhan o drafodaethau effeithiol a oedd yn sensitif i'w hanghenion. Gwelsom safon dda o gyfathrebu personol a gwybodaeth a oedd yn cynnwys teuluoedd a gofalywyr drwy system o bennu aelod o staff allweddol a chynnal cyfarfodydd cynllunio targedau.

Yn gyffredinol roedd cleifion a mwyafrif y perthnasau yn teimlo bod llais ganddynt, a bod ganddynt aelod o staff allweddol a fyddai ar gael i ateb unrhyw gwestiynau. Roedd cleifion a theuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gofal, bod y dewisiadau ar gyfer triniaethau yn dda a'u bod yn deall y gofal a'r driniaeth a oedd yn cael eu darparu.

Gwelwyd staff yn cyfathrebu'n briodol ac yn dangos lefel dda o gyfathrebu gyda chleifion ag anafiadau i'r ymennydd. Roedd staff yn gallu cael mynediad at wasanaethau arbenigol i ateb anghenion cyfathrebu unigryw'r cleifion, er enghraifft, cyngor am seicoleg. Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion niferus bod cleifion yn cael eu hasesu gan seicolegwyr i roi cyngor ar anghenion penodol a newidiadau i anghenion yn rheolaidd.

Nodwyd bod gan staff fynediad at amrywiaeth dda o gyfleusterau cyfieithu drwy asiantaeth a thrwy rifau cyswllt switsfwrdd.

Gwelsom enghreifftiau o gyfathrebu da rhwng cleifion a pherthnasau gan gynnwys enghraifft o gleifion a pherthnasau yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau amlddisgyblaethol ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth.

Parchu Pobl

Rhaid i hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewisiadau gwybodus gael eu diogelu bob amser, a rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion gallu a dymuniadau'r unigolyn.

Ar y cyfan, roedd yn glir bod agwedd y staff o safon uchel yn gyffredinol, ac roeddent yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu preifatrwydd ac urddas pob claf. Gwnaethom arsylwi ar ryngweithiadau cadarnhaol iawn rhwng staff, cleifion a pherthnasau. Fodd bynnag dylai'r bwrdd iechyd ddarparu cyfleusterau priodol er mwyn i staff gynnal sgysiaau sensitif a phreifat gyda chleifion a pherthnasau.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin mewn ffordd bwylllog a pharchus ac roedd cleifion y buom yn sgwrsio â nhw yn dweud eu bod yn hapus iawn gyda'r ffordd yr oedd y staff yn eu trin ac yn siarad â nhw.

Cawsom wybod gan berthnasau bod y staff yn rhoi adborth ac yn helpu perthnasau i wneud penderfyniadau ynglŷn â chynlluniau gadael.

Yn ystod triniaeth, gwelsom achos pan nad oedd y llenni ar gau yn llwyr wrth drin claf, ac achos arall lle roedd nodiadau claf wedi cael eu gadael yn agored ar y bwrdd ger y gwely lle roedd yn bosibl i eraill eu gweld.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod urddas cleifion yn cael ei barchu bob adeg a bod llenni wedi'u cau'n llwyr yn ystod gofal neu driniaeth ac nad yw nodiadau yn cael eu gadael mewn man amlwg.

Gwnaethom arsylwi ar nifer o ryngweithiadau gyda chleifion mewn modd sensitif a llawn empathi. Gwelsom staff yn parhau i fod yn gyfeillgar a chwrtais gyda chleifion a oedd angen cryn dipyn o sylw.

Fodd bynnag, roedd nifer o faterion amgylcheddol a oedd yn cyfaddawdu gallu'r staff i sicrhau bod urddas a phreifatrwydd cleifion a pherthnasau'n cael eu parchu'n gyson. Nid oedd ystafell gwbl breifat na chyfforddus ar gael er mwyn trafod gwybodaeth sensitif â chleifion a/neu berthnasau nac i dorri newyddion trist. Nododd staff bod rhaid iddynt ddefnyddio lolfaf cleifion ar hyn o bryd a bod perygl bobl dorri ar eu traws, neu ofyn i staff adael eu swyddfa.

Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i staff gynnal trafodaethau sensitif a phreifat gyda chleifion a pherthnasau.

Hyrwyddo Annibyniaeth

Mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn wrth fanteisio i'r eithaf ar eu gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.

Yn gyffredinol, roedd cleifion yn cael eu hannog i ail-adfer cyn gymaint o annibyniaeth ag yr oedd eu cyflwr meddygol yn ei ganiatáu iddynt. Fodd bynnag, mae lle i wella ymagwedd y tîm amlddisgyblaethol i gynnwys mwy o ffocws ar adferiad cyflymach sydd yn anelu at anfon y cleifion adref neu i amgylchedd cymunedol addas arall yn unol â dymuniadau'r cleifion a'u teuluoedd.

Sylwom fod cleifion a oedd yn gallu eistedd yn eu cadeiriau yn gwneud hynny, yn ogystal â bod yn eu gwely. Gwelsom y rhai a oedd yn gallu cerdded yn cerdded o amgylch y ward.

Roedd ystafell ddydd fawr ar gael i gleifion chwarae amrywiaeth o gemau bwrdd, ac roedd llyfrau, teledu a byrddau ar gael. Roedd teuluoedd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r ystafell ddydd gyda chleifion, er enghraifft sylwom ar deulu yn mwynhau pryd bwyd yno.

Roedd y cleifion yn cael eu diddanu gyda gweithgareddau fel darllen llyfrau a gwneud croeseiriau. Roedd gan gleifion fynediad at Wi-Fi ac roeddent yn gallu defnyddio eu llechi eu hunain i wyllo'r teledu. Fodd bynnag gwnaeth staff a chleifion nodi y byddent yn elwa o ysgogiadau ymenyddol fel gweithgareddau grŵp wedi'u strwythuro i adlewyrchu'r gweithgareddau y byddent yn rhan ohonynt y tu allan i'r ysbyty, er enghraifft Bingo.

Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried sut y gallai ddarparu ystod fwy eang o weithgareddau a fyddai'n cynnig cyffroad meddyliol â chorfforol i'r cleifion.

Perthnasau

Mae'n rhaid i bobl gael eu hannog i gynnal eu perthynas â'u teuluoedd â'u ffrindiau ac i ddatblygu perthnasau gyda'i gilydd yn unol â'u dymuniadau.

Nid ydym ni wedi gwneud unrhyw argymhellion ynglŷn â'r safon hon.

Mae oriau ymweld wedi'u pennu ac wedi'u harddangos ar wal y ward, er mae trefniadau yn cael eu gwneud i hwyluso amgylchiadau cleifion neu berthnasau unigol.

Mae teuluoedd yn cael eu hannog i gymryd rhan yn arferion dyddiol eu teuluoedd a gwnaethom sylwi bod teuluoedd cleifion yn rhannu amser bwyd gyda'u teuluoedd.

Gorffwys, Cwsq a Gweithgareddau

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chyfforddusrwydd pobl fel eu bod yn gallu gorffwys a chysgu.

Rydym wedi gwneud un argymhelliad yn ymwneud â darparu dillad gwely digonol ar gyfer anghenion y ward.

Roedd staff yn talu sylw i anghenion y cleifion unigol i orffwys a chysgu. Gwelsom fod staff yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl gleifion yn defnyddio clustffonau i wyllo rhaglenni teledu unigol neu wrth wrando ar y radio ar y ward er mwyn osgoi amharu ar gleifion eraill.

Ni wnaeth y cleifion y buom yn siarad â nhw nodi unrhyw bryderon na phroblemau ac roeddent yn gallu ymlacio drwy gydol y dydd neu'r nos.

Gwnaeth aelodau staff nodi bod dillad gwely glân yn cael ei ddsbarthu unwaith yr wythnos, fodd bynnag, weithiau, nid oedd nifer y dillad gwely yn ddigonol ac roedd staff wedi cael anawsterau wrth ddod o hyd i ddillad gwely ychwanegol gan wardiau eraill.

Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan y ward stoc ddigonol o ddillad gwely bob amser.

Sicrhau Cysur, Lleihau Poen

Rhaid i bobl gael cymorth i fod mor gyfforddus a di-boen â phosibl.

Ni wnaethom unrhyw argymhellion ynglŷn â'r safon hon.

Gwelwyd bod staff yn sylwgar i anghenion y cleifion ac yn ystyrlon wrth ymdrin â heriau cyfathrebu wrth asesu lefel y boen. Cofnodwyd lefel y boen lle bo'n briodol, yn dibynnu ar anghenion y cleifion unigol.

Mae'r staff nyrsio yn goruchwylio cleifion fel rheol, ac mae gan y cleifion nyrs benodol sy'n darparu meddyginiaeth i leddfu poen yn ôl yr angen. Gall cleifion a pherthnasau drafod meddyginiaeth i leddfu poen ar unrhyw adeg.

Gwelsom fod yr holl gleifion yn ymddangos yn gyfforddus yn eu gwelyau.

Soniodd y cleifion y buom yn siarad â nhw eu bod yn derbyn meddyginiaeth ddigonol i leddfu poen

Hylendid Personol, Ymddangosiad a Gofal am Draed

Rhaid i bobl gael cefnogaeth i fod mor annibynnol â phosibl i ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a gofalu am eu traed.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da, ond gwelsom broblemau gyda storio'r dillad gwely ac addaswydd un o'r ystafelloedd ymolchi.

Roedd pobl ar y ward yn ymddangos eu bod yn derbyn gofal da ar y cyfan, roeddent yn cael eu hymolchi yn lân a'u heillio os oeddent yn dewis. Mae perthnasau yn cael cefnogaeth gan staff nyrsio i ddarparu gofal personol a gall y cleifion ddefnyddio eu pethau personol eu hunain.

Roedd mwyafrif y cleifion yn dibynnu'n fawr ar ofal nyrsio a gwelsom anghenion cleifion yn cael eu bodloni'n briodol.

Roedd gan y staff nyrsio gysylltiadau â gwasanaethau thrin traed a gwasanaethau deintyddol er mwyn helpu gofal personol.

Roedd gan un o'r ystafelloedd cawod ar ward 7 offer priodol, fodd bynnag, nododd staff fod yr ystafell yn rhy fach ar gyfer nifer y staff angenrheidiol i ymgymryd â thasgau codi a chario.

Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried gofynion y gofod yn yr ystafell gawod a sicrhau ei fod yn bodloni anghenion grŵp y claf.

Bwyta ac Yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod sy'n bodloni eu gofynion maethol a'u gofynion personol a chael unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Roedd anghenion maethol y cleifion yn cael eu bodloni, fodd bynnag, rydym wedi dod ar draws un broblem wrth baratoi ar gyfer amser bwyd.

Nododd ein hadolygiad o ddogfennaeth bod anghenion maethol y cleifion yn cael eu hasesu a bod faint o fwyd roedd y cleifion yn ei fwyta'n cael ei fonitro yn ôl y gofyn. Roedd Siartiau Bwyd Cymru Gyfan yn cael eu defnyddio a gwelsom fod cymeriant yn cael ei gofnodi mewn amser real.

Mae diodydd wrth law i'r cleifion sy'n gallu yfed yn annibynnol. Cawsant ddŵr ffres yn rheolaidd yn ystod y dydd ac yn ôl y gofyn. Roedd jygiau dŵr wrth law ac roedd diodydd poeth ar gael yn rheolaidd ôl y gofyn. Gwelwyd bod y cleifion yr oedd angen cymorth arnynt wrth yfed yn cael cymorth.

Gwnaethom arsylwi ar ryngweithiad da rhwng y staff nyrsio a'r cleifion yn ystod amser bwyd. Gwelwyd cleifion yn cael cymorth priodol i fwyta a gwelom

dystiolaeth bod staff yn annog cleifion i fwyta yn rheolaidd, gan gynnig pryd bwyd amgen. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd amser bwyd yn cael ei arwain gan aelod penodol o staff, nid oedd y cleifion wedi cael eu paratoi ar gyfer amser bwyd cyn i'r troli gyrraedd ac ni chynigiwyd clytiau diheintio i'r dwylo/cyfle i ymolchi dwylo cyn eu pryd bwyd.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion yn cael cynnig clytiau diheintio i'r dwylo neu gynnig ymolchi eu dwylo a'u paratoi ymlaen llaw er mwyn osgoi oedi diangen cyn darparu bwyd i'r cleifion.

Roedd staff yn cadw ffrwythau, bisgedi a theisen i gleifion ac roeddent ar gael yn ôl y gofyn.

Roedd maetheg gyda chymorth meddygol yn cael ei ddarparu i'r cleifion hynny nad oeddent yn gallu bwyta bwyd solid.

Cedwir at amseroedd bwyd penodol ar y ward, ac roedd y perthnasau a'r teuluoedd yn cael eu hannog i fod yn bresennol yn ystod y prydiau bwyd, gan gadw at eu harferion gartref lle bo'n bosibl.

Iechyd y geg a hylendid

Rhaid darparu cymorth priodol, diffwdan a phrydlon lle bo angen, gan ystyried unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.

Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion yn erbyn y safon hon.

Cafodd y cleifion eu hasesu gan ddeintydd a thechnegydd deintyddol ar ôl cyrraedd y cartref a chytunwyd ar gynllun gofal gyda'r staff nyrsio. Lle bo angen, mae'r staff yn glanhau dannedd cleifion ac mae'r cleifion sy'n gallu glanhau eu dannedd eu hunain yn cael eu hannog i wneud hynny.

Mae'r deintydd yn ymweld â'r ward yn rheolaidd i ail-asesu anghenion cleifion.

Roedd gan gleifion a oedd yn gwisgo dannedd gosod flwch dannedd unigryw a oedd wedi'i labeli gyda'u henw er mwyn eu cadw'n ddiogel.

Gwelwyd gofal iechyd y geg yn cael ei hybu gan berthnasau yn ogystal â'r staff.

Anghenion Tŷ bach

Rhaid darparu cymorth priodol, diffwdan a phrydlon lle bo'r angen, gan ystyried unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.

Roedd y cleifion yn derbyn gofal a chefnogaeth dda ac roeddent yn gallu defnyddio eu dull eu hunain o fynd i'r tŷ bach. Rydym wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â gallu'r cleifion i ddefnyddio larymau argyfwng yn ystafell ymolchi'r ward.

Wrth adolygu'r ddogfennaeth, gwelwyd bod anghenion ymataliaeth cleifion yn cael eu hasesu.

Dywedodd y cleifion eu bod wedi cael dewis dull o ddefnyddio'r tŷ bach a nododd cleifion nad oedd rhaid iddynt aros yn rhy hir i gael cymorth.

Roedd staff yn ymwybodol iawn o'r cleifion a oedd yn gaeth i'w gwely ac roeddent yn eu goruchwyllo'n rheolaidd gan dalu sylw at eu hanghenion tŷ bach.

Gwelsom fod cyfleusterau'r tŷ bach yn lân ac roedd gan bob un ohonynt larymau cymorth i'w defnyddio mewn argyfwng. Fodd bynnag, mewn un tŷ bach roedd cordyn y larwm argyfwng yn llawer rhy bell oddi wrth y tŷ bach pe bai angen i un o'r cleifion ei ddefnyddio.

Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod larymau argyfwng yn y tai bach o fewn gfael y cleifion.

Atal Briwiau Pwyso

Mae'n rhaid i bobl gael cymorth i ofalu am eu croen a dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau na fyddant yn datblygu briwiau pwyso.

Ni wnaethom unrhyw argymhellion ynglyn â'r safon hon.

Gwelsom dystiolaeth asesiad o friwiau pwyso ar waith a'i fod yn cael ei gofnodi mewn dwy ddogfen wahanol. Gwnaed asesiad o friwiau pwyso ar ôl i'r claf gyrraedd.

Nododd staff fod gan ddau glaf friwiau pwyso gradd 1 ac roedd dogfennau nyrsio yn nodi sut y cawsant eu hasesu'n rheolaidd a pha ofal priodol a roddir.

Roedd sypyn yn cael ei roi ar y croen ac roedd dystiolaeth fod cynllun gofal ar waith yn ystod y cyfnodau goruchwyllo penodol.

Gwelsom hefyd fod croesau diogelwch yn cael eu defnyddio ar y ward i dynnu sylw'r cyhoedd at ddangosydd ansawdd y ward ar gyfer manau pwyso.

Ansawdd Staffio Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Teimlwyd bod y staff nyrsio yn bodloni anghenion safonau gofynnol gofal nyrsio ac roedd staff yn deall sut i ddelio â phroblemau pe baent yn codi. Roedd y prif fater a nodwyd yn ymwneud â chyfnod o arweinyddiaeth gyfyngedig oherwydd y broses recriwtio ar gyfer prif nyrs ward newydd. Roeddem yn teimlo y gallai fod yn fuddiol i adolygu cydbwysedd lefelau staff amlddisgyblaethol a'u cyfuniad o sgiliau er mwyn darparu gwasanaeth adsefydlu a bodloni anghenion newidiol y grŵp cleifion

Mae'r egwyddorion arweiniol i staff nyrsio a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru yn nodi na ddylai mwy na saith o gleifion gael eu clustnodi i bob nyrs cofrestredig yn ystod y dydd ar ward feddygol. Er bod y staffio ar ddiwrnod yr arolygiad yn ymddangos yn ddigonol, gwelsom y gallai dibyniaeth y cleifion newid oherwydd eu hanghenion cymhleth a nododd staff y byddent yn dymuno gweld cynnydd yn nifer y nyrsys er mwyn ymdrin ag anghenion newidiol cleifion yn y ward niwroadsefydlu arbenigol hon.

Dylai'r Bwrdd Iechyd ymgymryd ag adolygiad o'r lefelau staffio cyfredol i sicrhau eu bod yn ddigonol, o ystyried natur gymhleth y grŵp cleifion.

Cawsom wybod na fu prif nyrs barhaol ar y ward ers cryn dipyn o amser. Fodd bynnag, mae nyrs newydd wedi'i phenodi ac yn ystod y cyfnod interim, roedd prif nyrs ward y ward gyferbyn yn ymgymryd â'r rôl. Gwelsom fod hyn o ganlyniad i ddiffyg arweiniad cyson gan uwch aelodau o staff i ddarparu rôl cydlynu glir yn ystod yr arolygiad.

Roedd amgylchedd diwylliant agored ar y ward ac roedd yr uwch nyrsys i'w gweld drwy gydol yr arolygiad. Fodd bynnag, gwnaeth aelodau staff nodi fod prinder uwch nyrsys ar adegau am nad oedd gan y ward brif nyrs mewn swydd ar hyn o bryd, ond roeddent yn rhannu prif nyrs â'r ward gyferbyn.

Roedd yr holl staff y buom yn sgwrsio â nhw yn teimlo y gallent rannu problemau â'r uwch nyrsys, ac roeddent yn ymwybodol o drefn y polisiau a'r gweithdrefnau clinigol perthnasol ac roedd ganddynt fodd o gael hyfforddiant ar rhain drwy ddeunyddiau dysgu ar-lein.

Roedd y staff y buom yn siarad â nhw yn ymwybodol o ddiogelu gweithdrefnau a pholisiau oedolion a strwythur y bwrdd iechyd i gael mwy o gyngor. Roedd gan y ward gysylltiad â gwasanaethau seicolegol a oedd yn cynnal unrhyw asesiadau iechyd meddwl ac a oedd yn eu hadolygu yn ôl yr angen.

Roedd strwythur atebolrwydd proffesiynol clir ar waith: roedd nyrs yn rheoli ac roedd gan bob nyrs gyfrifoldeb penodol dros gleifion a oedd wedi'u clustnodi iddynt. Roedd gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio dan arweiniad y nyrs cofrestredig.

Roedd gan y staff uwch dealltwriaeth dda o'r system gwyno a darparwyd enghreifftiau o'r dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i gyfathrebu â pherthnasau â'u pryderon. Roedd perthnasau yn cael eu hannog i grybwyll unrhyw bryderon â'r staff a oedd yn cael caniatâd gan uwch aelodau o staff i ddarparu gwybodaeth yn agored. Roedd gan bob un o'r cleifion nyrs benodol a oedd yn sicrhau gwybodaeth amser real barhaus. Roedd y perthnasau yn gadarnhaol o ran eu hadborth ar y system nyrsys penodedig a pharhad y gofal.

Cyflenwi Gwasanaeth Ddiogel ac Effeithiol

Rhaid i iechyd, diogelwch a lles pobl gael ei hyrwyddo a'i diogelu. Rhaid i risgiau gael eu hadnabod, eu monitro lle bo'n briodol, eu lleihau neu eu hatal.

Gwelsom fod mynediad cyfyngedig gan y cleifion ar y ward niwroadsefydlu hon â gwasanaethau ffisiotherapi arbenigol ac y byddai cleifion yn elwa o gael mwy o ffisiotherapyddion ar y ward. Gwelsom heriau amgylcheddol ar y ward am ei bod y tu mewn i hen adeilad yr oedd angen ei adnewyddu. Nid oedd cysondeb i'r cleifion ddefnyddio larymau. Gwelsom anghysondebau wrth ufuddhau i Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan. Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y staff yn cyflenwi gwasanaeth diogel i gleifion, o ystyried heriau amgylcheddol y ward.

Mynediad at Wasanaethau Aml-Broffesiynol

Nodwyd gennym fod amser gyda'r ffisiotherapydd yn gyfyngedig oherwydd prinder staff yn y maes hwn a dywedodd y staff wrthym nad oedd yn bosibl i ddarparu popeth i'r holl gleifion oherwydd y prinder hwn.

Roedd y staff y buom yn siarad â nhw a'r ddogfennaeth a welsom yn cadarnhau bod gan y ward fynediad da at wasanaethau arbenigol gan gynnwys deintydd, seicolegydd, nyrs sy'n arbenigo mewn meinweoedd, a nyrs sy'n arbenigo mewn diabetes.

Dylai'r Bwrdd Iechyd Adolygu Gofynion Ffisiotherapi y Grŵp Cleifion a Phenderfynu a Oes Angen Darpariaeth Ychwanegol.

Amgylchedd

Gwelsom fod yr amgylchedd cyffredinol yn hen, yn ddiflas a bod angen ei adnewyddu. Cawsom wybod bod cynllun i'w foderneiddio a'i adnewyddu ar y gweill a fydd yn dechrau unwaith y bydd contractwyr wedi'u penodi. Ar hyn o bryd, mae cynllun y ward yn peri her i'r staff nyrsio ond maent yn ymwybodol o'r heriau ac maent yn mynd i'r afael â hyn gan roi sylw ychwanegol i rannau o'r ward sy'n fwy heriol i'w harolygu, ac mae'r cleifion sydd yn y manau hyn yn risg is yn ôl eu hasesiad.

Roedd cryn dipyn o annibendod ar y ward ac roedd yr offer yn aml yn rhwystr i'r aelodau staff nyrsio a'r staff glanhau am eu bod yn gorfod ei symud o un lle i'r llall er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.

Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod offer yn cael ei storio'n briodol ac nad yw'n creu annibendod ar y ward.

Gwelsom fod y golchfeydd yn nhaclus ac roedd nifer o eitemau ar y ward wedi torri ac roedd angen cael gwared arnynt. Roedd rhai o'r eitemau eisoes wedi cael eu hysbysu i'r adran ystadau ers tri mis, ond nid oeddent wedi cael eu symud o'r ward.

Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y gwaredu ar eitemau o'r fath ar unwaith yn unol â Pholisi Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan.

Gwelsom fod byrddau gwybodaeth i'r cleifion wedi'u lleoli ym mhrif lwybr y ward a'u bod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i berthnasau megis enwau nyrsys penodol. Fodd bynnag, roedd y byrddau hefyd yn cynnwys gwybodaeth sensitif am y cleifion megis symudedd cleifion na ddylai fod ar gael i'r holl berthnasau sy'n ymweld â'r ward.

Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gwybodaeth sensitif am y cleifion yn cael ei chadw'n gwbl briodol.

Roedd gardd gaeedig ar gael i'r cleifion ac roedd y staff yn teimlo bod hyn yn ased i'r ward. Fodd bynnag, gwelsom fod peryglon i bobl sy'n cael trafferthion wrth symud am fod annibendod yn yr ardd.

Dylai'r Bwrdd lechyd ymgymryd ag asesiad addasrwydd o'r ardd a sicrhau ei bod yn cael ei chlirio fel na fydd unrhyw beryglon i'r cleifion.

Glanweithdra a Hylendid Dwylo

Ni wnaethom gynnal arolygiad glendid ar hap ar y ward, fodd bynnag, wrth arsylwi ar lendid cyffredinol, daethom i'r casgliad fod safon y glanhau yn anghyson ar adegau. Nid oedd yr holl fannau'n cael eu glanhau'n drwyadl gan symud offer er mwyn cyrraedd a glanhau pob cornel, er enghraifft, gwelsom fod biniau llawn dillad gwely brwnt yn cael eu symud o un ardal ar y ward i'r llall. Dydy hwn ddim yn gyson gydag arferiadau da atal haint. Yn yr ystafell ddydd ar ôl amser cinio, gwelsom fwrdd brwnt na chafodd ei lanhau.

Gwelsom nad oeddent yn cydymffurfio'n gyson â'r dull o gael gwared ar chwistrell a ddefnyddiwyd, a chafodd ei gadael wrth ochr gwely un o'r cleifion.

Gwelsom nad oeddent yn cydymffurfio'n gyson â'r dull o sicrhau hylendid dwylo, a gwelsom fenig a oedd wedi'u defnyddio yn cael eu rhoi mewn bin gan ddefnyddio llaw i agor clawr y bin yn hytrach na'r pedal troed.

Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan.

Diogelwch Cleifion

Gwelsom nad oedd larwm wrth law at ddefnydd nifer o'r cleifion ac felly nid oeddent yn gallu galw am gymorth, a dywedodd un claf wrthym y bu'n rhaid iddo weiddi'n uchel i gael sylw staff nyrsio, ond ar ôl galw, daeth nyrsys ato'n gyflym.

Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod larwm o fewn cyrraedd yr holl gleifion.

Gwelsom nad oedd yr holl staff ar y ward yn gwisgo bathodynau adnabod nac unrhyw ffurf arall o ddull adnabod swyddogol.

Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn adnabod gweladwy at ddibenion diogelwch a'u bod yn cael eu herio os nad ydynt yn cydymffurfio â hyn.

6. Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol o'r arolygiad a chyflwyno'u Cynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos o gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Rhaid i Gynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ar gyfer Ward 7 ac 8 yn Ysbyty Rookwood yn cael eu datrys, gan gynnwys amserlen. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn systematig ar draws adrannau / unedau eraill y Bwrdd Iechyd.

Unwaith y cytunwyd ar Gynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd, caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o broses arolygu Urddas a Gofal Hanfodol parhaus.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella
Ysbyty: Ysbyty Rookwood
Ward/ Adran: Ward 7 ac 8 Niwroadsefydlu
Dyddiad yr arolygiad: 17 a 18 Mehefin 2014

Canfyddiad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf			
Cyflenwi Hanfodion Gofal			
<p>Yn ystod triniaeth, gwelsom achos pan nad oedd y llenni ar gau yn llwyr wrth drin claf, ac achos arall lle roedd nodiadau claf wedi cael eu gadael yn agored ar y bwrdd ger y gwely lle roedd yn bosibl i eraill eu gweld.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod urddas cleifion yn cael ei barchu bob adeg a bod llenni wedi'u cau'n llwyr yn ystod gofal neu driniaeth ac nad yw nodiadau yn cael eu gadael mewn man amlwg.</p>			

Canfyddiad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>Nid oedd ystafell gwbl breifat na chyfforddus ar gael er mwyn trafod gwybodaeth sensitif â chleifion a/neu berthnasau nac i dorri newyddion trist. Nododd staff bod rhaid iddynt ddefnyddio lolfar cleifion ar hyn o bryd a bod perygl bobl dorri ar eu traws, neu ofyn i staff adael eu swyddfa.</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i staff gynnal trafodaethau sensitif a phreifat gyda chleifion a pherthnasau.</p>			
<p>Dywedodd cleifion wrthym y byddent yn hoffi mwy o weithgareddau a fyddai'n ysgogi'r ymennydd ar y ward fel Bingo. Nododd rhai aelodau o staff y byddai cleifion yn elwa o fwy o ysgogiadau ymenyddol fel gweithgareddau grŵp wedi'u strwythuro i adlewyrchu'r gweithgareddau y byddent yn rhan ohonynt y tu allan i'r ysbyty, er enghraifft Bingo.</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y gallai ddarparu mwy o weithgareddau strwythurol i'r ymennydd yn ogystal â gweithgareddau corfforol.</p>			

Canfyddiad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>Gwnaeth staff nodi bod dillad gwely glân yn cael ei ddsbarthu unwaith yr wythnos, fodd bynnag, weithiau, nid oedd nifer y dillad gwely yn ddigonol ac roedd staff wedi cael anawsterau wrth ddod o hyd i ddillad gwely ychwanegol gan wardiau eraill.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan y ward stoc ddigonol o ddillad gwely bob amser.</p>			
<p>Roedd gan un o'r ystafelloedd cawod ar ward 7 offer priodol, fodd bynnag, nododd staff fod yr ystafell yn rhy fach ar gyfer nifer y staff angenrheidiol i ymgymryd â thasgau codi a chario.</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried gofynion y gofod yn yr ystafell gawod a sicrhau ei fod yn bodloni anghenion grŵp y claf.</p>			
<p>Gwelsom nad oedd amser bwyd yn cael ei arwain gan aelod penodol o staff nyrsio; nid oedd y cleifion wedi cael eu paratoi ar gyfer amser bwyd cyn i'r troli gyrraedd ac ni chynigiwyd clytiau diheintio i'r dwylo/cyfle i ymolchi dwylo cyn eu pryd</p>			

Canfyddiad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>bwyd.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion yn cael cynnig clytiau diheintio i'r dwylo neu gynnig ymolchi eu dwylo a'u paratoi ymlaen llaw er mwyn osgoi oedi diangen cyn darparu bwyd i'r cleifion.</p>			
<p>Mewn un tŷ bach roedd cordyn y larwm argyfwng yn llawer rhy bell oddi wrth y tŷ bach pe bai angen i un o'r cleifion ei ddefnyddio.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod larwm argyfwng yn y tai bach o fewn gfael y cleifion.</p>			
Ansawdd Staffio, Arweinyddiaeth a Rheolaeth			
<p>Mae'r egwyddorion arweiniol i staff nyrsio a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru yn nodi na ddylai mwy na saith o gleifion gael eu clustnodi i bob nyrs cofrestredig yn ystod y dydd ar ward feddygol. Er bod y staffio ar ddiwrnod yr arolygiad yn ymddangos yn ddigonol, gwelsom y gallai dibyniaeth y cleifion newid oherwydd eu hanghenion cymhleth a nododd staff y byddent yn dymuno gweld</p>			

Canfyddiad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>cynnydd yn nifer y nyrsys er mwyn ymdrin ag anghenion newidiol cleifion yn y ward niwroadsefydlu arbenigol hon.</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd ymgymryd ag adolygiad o'r lefelau staffio cyfredol i sicrhau eu bod yn ddigonol, o ystyried natur gymhleth y grŵp cleifion.</p>			
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol			
<p>Nodwyd gennym fod amser gyda'r ffisiotherapydd yn gyfyngedig oherwydd prinder staff yn y maes hwn a dywedodd y staff wrthym nad oedd yn bosibl i ddarparu popeth i'r holl gleifion oherwydd y prinder hwn.</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu gofynion ffisiotherapi'r grŵp cleifion a phenderfynu a oes angen darpariaeth ychwanegol.</p>			
<p>Roedd cryn dipyn o annibendod ar y ward ac roedd yr offer yn aml yn rhwystr i'r staff nyrsio a'r staff glanhau am eu bod yn gorfod ei symud o un lle i'r llall er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod offer yn</p>			

Canfyddiad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>cael ei storio'n briodol ac nad yw'n creu annibendod ar y ward.</p>			
<p>Gwelsom fod y golchfeydd yn anniben ac roedd nifer o eitemau ar y ward wedi torri ac roedd angen cael gwared arnynt. Roedd rhai o'r eitemau eisoes wedi cael eu hysbysu i'r adran ystadau ers tri mis, ond nid oeddent wedi cael eu symud o'r ward.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau'r gwaredu ar eitemau o'r fath ar unwaith yn unol â Pholisi Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan.</p>			
<p>Gwelsom fod byrddau gwybodaeth i'r cleifion wedi'u lleoli ym mhrif lwybr y ward a'u bod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i berthnasau megis enwau nyrsys penodol. Fodd bynnag, roedd y byrddau hefyd yn cynnwys gwybodaeth sensitif am y cleifion megis symudedd cleifion na ddylai fod ar gael i'r holl berthnasau sy'n ymweld â'r ward.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwybodaeth sensitif am y cleifion yn cael ei chadw'n gwbl briodol.</p>			

Canfyddiad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>Roedd gardd gaeedig ar gael i'r cleifion ac roedd y staff yn teimlo bod hyn yn ased i'r ward. Fodd bynnag, gwelsom fod peryglon i bobl sy'n cael trafferthion wrth symud am fod annibendod yn yr ardd.</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd ymgymryd ag asesiad addaswydd o'r ardd a sicrhau ei bod yn cael ei chlirio fel na fydd unrhyw beryglon i'r cleifion.</p>			
<p>Gwelsom nad oedd yr arfer o lanhau a hylendid dwylo yn cydymffurfio â Safonau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan yn gyson. Gwelsom nad oedd yr holl ardaloedd wedi cael eu glanhau'n drwyadl, roedd biniau llawn a oedd yn cynnwys dillad gwely brwnt yn cael eu symud o un ardal y ward i'r llall, a chafodd hen chwistrell ei gadael wrth ochr gwely un o'r cleifion.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gydymffurfio â Safonau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan.</p>			
<p>Gwelsom nad oedd larwm wrth law nifer o'r cleifion ac felly nid oeddent yn gallu galw</p>			

Canfyddiad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<p>am gymorth.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod larwm o fewn cyrraedd yr holl gleifion.</p>			
<p>Gwelsom nad oedd yr holl staff ar y ward yn gwisgo bathodynau adnabod nac unrhyw ffurfiau eraill swyddogol o'u hadnabod.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn adnabod gweladwy at ddibenion diogelwch a'u bod yn cael eu herio os nad ydynt yn cydymffurfio â hyn.</p>			

Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd:

Enw (wedi'i brintio):

.....

Teitl:

.....

Llofnod:

.....

Dyddiad:

.....